**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol
Cymru
Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa
Archwilio Cymru

24 Tachwedd 2021

Annwyl Adrian a Lindsay,

Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth

Diolch i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor heddiw i ateb ein cwestiynau ar y cynnydd a wnaed gyda'r adolygiad Teithio a Chynhaliaeth a'r cynnig i ariannu pryniant ymlaen llaw o'r lwfans teithio presennol. Cytunodd y Pwyllgor yr hoffai gael rhagor o wybodaeth cyn gwneud ei benderfyniad ynghylch a ddylid cytuno mewn egwyddor â chais am gyllideb atodol.

Fe wnaethoch gytuno i roi rhagor o wybodaeth am y costau a'r arbedion perthnasol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech eu cyflwyno fesul blwyddyn a, gan werthfawrogi'r sensitifrwydd o ystyried yr ymgynghoriad parhaus gyda staff ac Undebau Llafur, a allech nodi'r costau a'r arbedion disgwyliedig ar gyfer pob cydran neu elfen o'r cynlluniau presennol ac arfaethedig.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cael syniad o sut y byddwch yn talu'n ôl am y pryniant cynnar o'r Lwfans Teithio presennol. Hefyd, wrth gyflwyno amcangyfrifon ar gyfer y dyfodol, sut byddwch yn dangos yr arbedion sy'n cael eu gwneud a'r gostyngiad cysylltiedig yn y cronfeydd sy'n cael eu ceisio gan Gronfa Gyfunol Cymru a lefel y ffioedd archwilio.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**